Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Nant y Parc**
**Universal Site**
**Senghennydd**
**Caerffili**
**CF83 4GY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Nant y Parc wedi ei lleoli ym mhentref Senghennydd yn awdurdod lleol Caerffili. Ar hyn o bryd, mae 185 o ddisgyblion amser llawn rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, sy'n cael eu haddysgu mewn wyth dosbarth. Yn ogystal, mae 39 o ddisgyblion yn mynychu'r dosbarth meithrin ar sail ran-amser.

Mae tua 38% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol. Mae bron pob un o'r disgyblion o dras ethnig Brydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes yr un disgybl yn dod o aelwyd Cymraeg mamiaith.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Bu'r pennaeth yn y swydd er Medi 2014. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn 2014-2015 ar gyfer Ysgol Gynradd Nant y Parc yw £2,995. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £5,106 a'r isafswm yw £2,645. Mae Ysgol Gynradd Nant y Parc yn y 46$^{fed}$ safle allan o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o'u man cychwyn
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda
- Mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi
- Mae athrawon yn cynllunio ystod ddiddorol o weithgareddau, sy'n aml yn gysylltiedig â phrofiadau uniongyrchol sy'n diddori ac yn ysgogi disgyblion
- Mae ansawdd yr addysgu ac asesu cynnydd disgyblion yn dda
- Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da i'r holl ddisgyblion
- Mae cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol
- Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn ddiddorol ac yn ysbrydoledig

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir iawn i godi safonau a dyheadau, ac mae'n ei hyrwyddo'n effeithiol iawn
- Mae'r pennaeth yn gosod safonau uchel ar gyfer hi ei hun, y staff a'r disgyblion
- Mae'r staff yn rhannu ymrwymiad cryf ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i gymuned ddysgu broffesiynol yr ysgol
- Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rôl fel cyfaill beirniadol yn effeithiol
- Mae arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda ac mae cynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol
- Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau cryf ag ystod eang o asiantaethau a sefydliadau sydd o fudd i les disgyblion ac yn gwella eu hamgylchedd dysgu
- Mae gan yr ysgol drefniadau da ar waith i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion

A2 Codi lefelau presenoldeb

A3 Ymestyn gallu disgyblion i ysgwyddo cyfrifoldeb a chyfrannu at benderfyniadau yn yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiad gwaelodlin yr ysgol yn nodi bod gan bron pob un o'r disgyblion wybodaeth, dealltwriaeth a medrau sydd islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o'u man cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i siarad am eu gwaith ac yn defnyddio iaith yn dda, er enghraifft pan fyddant yn gweithio mewn parau i drafod p'un a fyddant yn dod o hyd i fwy o greaduriaid mewn pwll neu nant. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu barn mewn modd difrifol a gwybodus, er enghraifft wrth esbonio gwaith diweddar a wnaed gan yr eco-bwyllgor.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am y testun y maent yn ei ddarllen. Mae disgyblion mwy abl yn darllen â rhugldeb addas a mynegiant priodol, gan ddefnyddio atalnodi'n dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen â lefel o ruglder, mynegiant a dealltwriaeth sy'n addas i'w hoedran a'u cyfnod datblygu. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen yn llwyddiannus, ac yn cipddarllen a llithrddarllen testunau'n effeithiol er mwyn dod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae eu hysgrifennu'n datblygu'n dda. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n gredadwy gan ddangos hyder a mwynhad, er enghraifft wrth iddynt lunio taflen am dylluanod. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o sillafu a strwythur brawddegau sylfaenol. Maent yn defnyddio ystod dda o eirfa ac yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu i'r un safon y maent yn ei chyflawni mewn gwersi llythrennedd mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad manwl o Dân Mawr Llundain. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da yn eu hysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi'n gywir ac mae eu sillafu o eiriau sy'n cael eu defnyddio'n aml yn gywir, ar y cyfan. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa anturus, gan ddefnyddio ansoddeiriau, adferfau a chyffelybiaethau lliwgar, er enghraifft i ddisgrifio afon. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu'n rhugl yn estynedig yn ddigon da. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddarllenadwy ac yn cyflwyno eu gwaith yn dda; fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ffurfio pob un o'u llythrennau'n gywir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn effeithiol ac yn mwynhau eu cymhwyso. Er enghraifft, gallant gyfrif mewn deuoedd a haneru eilrifau i fyny i ddeg yn hyderus. Maent yn cofnodi data'n gywir gan ddefnyddio siartiau cyfrif, graffiau bloc, diagramau Venn a phictogramau. Mae

disgyblion mwy abl yn datrys problemau'n hyderus, fel gweithio allan sawl pâr o esgidiau y byddai eu hangen ar bryf copyn. Fodd bynnag, maent yn llai sicr gyda'u medrau mesur. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio iaith fathemategol briodol yn dda, a gallant ddewis dulliau amgen i ddatrys problemau'n llwyddiannus. Mae gan ddisgyblion mwy abl ystod dda o dechnegau ar gyfer lluosi a rhannu'n gymwys, ac maent yn defnyddio cyfesurynnau'n dda. Ar draws y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn pynciau eraill. Er enghraifft, wrth baratoi ar gyfer y Ffair Nadolig, maent yn cyfrifo faint o gynhwysion cacennau sydd eu hangen ar gyfer platiadau amrywiol yn gywir.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da â'u Cymraeg llafar. Mae disgyblion iau yn defnyddio cyfarchion syml ac yn ateb cwestiynau am bynciau cyfarwydd yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn rhoi atebion hwy gan ddefnyddio cysylltion a negyddion yn briodol. Gwna llawer o ddisgyblion gynnydd priodol yn eu gwaith ysgrifenedig ond, yn gyffredinol, nid yw eu medrau darllen Cymraeg wedi datblygu cystal.

Mae medrau meddwl a datrys problemau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, ac mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol ar y deilliant 5 disgwyliedig wedi rhoi'r ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg ar gyfer y tair blynedd diwethaf, yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn llythrennedd wedi dirywio, gan symud yr ysgol o'r 25% uchaf i'r 50% is dros yr un cyfnod. Ar y deilliant 6 sy'n uwch na'r disgwyl, mae'r ysgol wedi aros yn y 50% uwch o ysgolion tebyg yn y ddau faes dysgu, yn gyffredinol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig dros y pedair blynedd diwethaf yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf ym mhob pwnc, yn gyffredinol, o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer tair o'r pedair blynedd diwethaf, tra mae perfformiad mewn Saesneg wedi ei rhoi yn y 50% uwch neu'n well o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n sylweddol well na'u cyfoedion ar y deilliant 5 disgwyliedig. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'u cyfoedion ym mhob un o'r tri phwnc ar y lefel 4 ddisgwyliedig. Ar y lefel uwch, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na'u cyfoedion mewn gwyddoniaeth, ond yn sylweddol waeth mewn Saesneg a mathemateg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus bod oedolion yn ymdrin ag unrhyw bryderon sydd ganddynt yn effeithiol. Maent yn deall buddion gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau corfforol gwerthfawr sy'n cael eu cynnig yn ystod amser egwyl.

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall egwyddorion bwyta'n iach yn dda, nid ydynt yn gwneud dewisiadau bwyd iach iddyn nhw eu hunain bob tro. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gwybod am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi. Maent yn gweithio'n adeiladol â'i gilydd ac yn dangos parch tuag at ei gilydd.

Er 2010, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi gwella'n raddol ac mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau'r ysgol, mae presenoldeb wedi rhoi'r ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor yn ymfalchïo yn eu rolau. Maent yn cyfrannu'n ddefnyddiol at brosiectau fel codi arian ar gyfer gwelliannau i'r ardaloedd awyr agored. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid ydynt yn cyfrannu digon at wneud penderfyniadau sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda, ynghyd ag ymdeimlad cryf o gymuned trwy weithgareddau fel helpu i greu Gardd Goffa'r Glowyr gerllaw. Mae llawer o ymweliadau gwerthfawr, fel taith ddiweddar i Baris i ddisgyblion hŷn, yn datblygu hyder a hunan-barch disgyblion yn effeithiol iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae dull cynllunio'r ysgol, ar sail testunau, yn gynhwysfawr ac yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio ystod ddiddorol o weithgareddau, sy'n aml yn gysylltiedig â phrofiadau uniongyrchol, sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn archwilio pelenni tylluanod â llawer o ddiddordeb a mwynhad, gan ddatblygu ystod eang o fedrau. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddefnyddio'r awyr agored, gan gynnwys ardal ysgol y goedwig. Mae hyn yn helpu i fodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus, ac yn adlewyrchu egwyddorion dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae ystod dda o ymweliadau addysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus ar gyfer pob grŵp oedran.

Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynlluniau tymor hir ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth disgyblion. Maent yn cynllunio cyfleoedd dychmygus a difyr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, gwna disgyblion Blwyddyn 6 ddefnydd da o'u medrau llythrennedd i ysgrifennu adroddiad gwyddoniaeth diddorol sydd wedi ei gyflwyno'n dda ar gynhesu byd-eang. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn briodol.

Mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau Cymraeg llafar disgyblion, gan ddefnyddio cyfarchion syml ac ymadroddion bob dydd yn addas y tu allan i wersi, fel cwestiwn yr wythnos. Caiff disgyblion gyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau ysgrifennu, ond cânt lai o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau darllen. Maent yn dysgu am draddodiadau a diwylliant Cymru yn briodol trwy waith testun mewn hanes, daearyddiaeth a chelf, a thrwy ymweliadau diddorol, fel ymweliad â Chastell Caerffili.

Mae aelodau'r eco-bwyllgor yn hyrwyddo ailgylchu ac arbed ynni yn dda. Mae gwaith â'r grŵp rhandiroedd lleol yn helpu disgyblion i ddysgu sut i ofalu am eu hamgylchedd yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy waith testun rheolaidd, a thrwy ymweliad hynod effeithiol â Pharis i ddisgyblion o gyfnod allweddol 2.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig ac yn gweithio'n galed, gan osod safonau uchel iddyn nhw eu hunain a'u disgyblion. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac adnoddau diddorol mewn gwersi i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae rhediad da i'r rhan fwyaf o wersi ac mae'r berthynas waith gadarnhaol rhwng staff addysgu a disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel yn gyson ac, yn yr enghreifftiau gorau, maent yn ymateb yn hyblyg i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu wrth iddynt godi. Fodd bynnag, caiff gweithgareddau mewn ychydig iawn o wersi eu gorgyfarwyddo, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddysgu'n annibynnol ambell waith.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau rheoli ymddygiad yn gyson dda, gan greu amgylcheddau dysgu tawel a phwrpasol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio cwestiynau'n effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl a chyfathrebu yn llwyddiannus. Mae gan athrawon wybodaeth gyfredol, dda yn y rhan fwyaf o bynciau, ac maent yn ei defnyddio'n dda. Mae staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol iawn ag athrawon i alluogi disgyblion i wneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Maent yn rhoi adborth sy'n helpu disgyblion i weld pa mor dda y maent yn dod ymlaen a beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Maent yn addysgu disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ac mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar waith i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Caiff rhieni adroddiadau blynyddol clir ac addysgiadol sy'n rhoi gwybodaeth dda iddynt am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, groesawgar a meithringar, sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod disgyblion yn cael gofal da ac yn teimlo'n ddiogel. Mae trefniadau addas ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol wedi datblygu ei hardal awyr agored yn effeithiol iawn i annog disgyblion i fod yn fwy heini. Mae gwasanaethau a gweithredoedd addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn briodol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cyson i reoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn siarad am y rhain yn wybodus ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt. Mae gan yr ysgol ddull priodol o gadw disgyblion yn ddiogel ar-lein. Mae ei threfniadau diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt destun pryder.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â gwasanaethau arbenigol fel cymorth iaith a lleferydd, gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion; er enghraifft, mae ymyrraeth gynnar gan arbenigwyr iaith a lleferydd yn helpu disgyblion i wella eu medrau cyfathrebu. Mae asiantaethau allanol eraill, fel gwasanaethau cwnsela a chymorth arbenigol i deuluoedd, yn cydweithio'n agos â'r ysgol i wella lles disgyblion.

Mae gweithdrefnau ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir ac wedi eu strwythuro'n dda. Mae cynlluniau addysg unigol yn addas i blant ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon at ysgrifennu ac arfarnu eu targedau unigol. Gwna athrawon a staff cymorth ddefnydd adeiladol o ystod eang o raglenni ymyrraeth, sy'n cael effaith gadarnhaol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da neu dda iawn o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn cysylltu â rhieni'n rheolaidd ac yn rhoi gwybodaeth dda iddynt am gynnydd eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar, tawel, gofalgar a chynhwysol iawn. Mae'n rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau y gall pob disgybl fanteisio'n gyfartal ar bob maes o ddarpariaeth yr ysgol, ac mae'n goresgyn rhwystrau'n llwyddiannus i gyflawni hyn. O ganlyniad, mae disgyblion yn ffynnu ac yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen wedi ei gynllunio'n dda, yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb, gan gynorthwyo dysgu a chwarae gweithredol yn dda iawn. Mae ardal y goedwig, y pwll a'r gallu i fanteisio ar randir lleol yn cyfoethogi cyfleoedd disgyblion ymhellach ar draws pob maes dysgu. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddysgu'n adeiladol o brofiadau uniongyrchol a chael hwyl wrth wneud hynny. Mae'r amrywiaeth ddiddorol o adnoddau o ansawdd da sydd ar gael yn ystod amser egwyl yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus ac yn annog bechgyn a merched i fod yn heini.

Mae'r ystafelloedd dan do mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd lliwgar a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn effeithiol. Gall disgyblion fanteisio ar ystod dda o adnoddau sy'n cael eu cynnal a chadw'n dda, gan gynnwys llechi cyfrifiadurol, y maent yn eu defnyddio'n rheolaidd. Mae arddangosiadau wal yn ddeniadol ac yn hyrwyddo dysgu'n dda. Mae'r ysgol yn cynnal a chadw ei hadeiladu i safon dda ac yn cadw'r safle'n ddiogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn hyrwyddo ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn effeithiol iawn ac yn darparu arweinyddiaeth gref a phenderfynol. Mae wedi sefydlu uwch dîm arweinyddiaeth brwdfrydig sy'n rhannu ei disgwyliadau uchel ac yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu, dysgu a phresenoldeb. Gyda'i gilydd, maent yn darparu cyfeiriad strategol cryf ac effeithiol ar gyfer yr ysgol.

Mae gan yr holl staff rolau a chyfrifoldebau clir, sy'n cael eu rhannu'n dda trwy'r ysgol gyfan. Mae staff ar bob lefel yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyrwyddo safonau uchel, ac yn sicrhau bod y cwricwlwm yn ennyn diddordeb ac yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd a chyfarfodydd yr uwch dîm arweinyddiaeth yn sicrhau ffocws clir ar gynnydd disgyblion a blaenoriaethau datblygu'r ysgol.

Mae gan y pennaeth ymrwymiad cadarn i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff a manteisio i'r eithaf ar eu potensial. O ganlyniad, mae staff yn ffynnu ac yn defnyddio eu harbenigedd unigol er budd yr holl ddisgyblion. Mae'r rhaglen rheoli perfformiad gadarn yn alinio'n agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio technegau hyfforddi a mentora yn fedrus i ddatblygu safonau uchel a chysondeb mewn addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn canolbwyntio'n gryf ar godi dyheadau yng nghymuned yr ysgol; er enghraifft, mae wedi dynodi amser rheoli i'r dirprwy bennaeth arwain ar ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn wedi gwella ymwybyddiaeth rhieni a disgyblion o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn llwyddiannus. Ers ymgymryd â'r swydd, mae wedi trefnu teithiau uchelgeisiol i Lundain a Pharis, gan roi profiad gwerthfawr i ddisgyblion o'r byd y tu hwnt i'w hardal leol.

Mae'r corff llywodraethol yn cynorthwyo'r ysgol yn effeithiol iawn ac yn darparu lefel dda o her. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, trwy adroddiadau manwl gan y pennaeth a'u hymweliadau rheolaidd a gohebiaeth â chydlynwyr pynciau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu amgylchedd dysgu awyr agored effeithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant sefydledig o hunanarfarnu yn yr ysgol. Mae'r pennaeth, ynghyd â'r uwch dim rheoli a staff eraill, yn cynnal rhaglen fonitro gynhwysfawr sy'n asesu sawl agwedd ar berfformiad yr ysgol. Mae hunanarfarnu'n defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys yr holl aelodau staff, ac o ddadansoddiad manwl o ddata perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar gynlluniau athrawon a chraffu ar lyfrau disgyblion. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyfrannu at gasglu tystiolaeth hunanasesu ac mae'r ysgol yn ceisio barn disgyblion a'u rhieni, ac yn ei hystyried, yn

rheolaidd. Er bod yr adroddiad hunanarfarnu yn hir ac yn ddisgrifiadol mewn mannau, mae'n crynhoi cryfderau'r ysgol yn gywir ac yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella.

Mae cysylltiad clir rhwng y meysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Trwy ddechrau ag arfarniad o'r cynlluniau blaenorol, mae'r cynllun yn cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau, sydd wedi eu rhannu'n dargedau arwahanol, y mae pob un ohonynt yn cynnwys manylion am gostau, amserlen a threfniadau monitro. Mae gan y rhan fwyaf o dargedau feini prawf llwyddiant mesuradwy, clir sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau i ddisgyblion. Mae'r cynllun yn sicrhau y caiff cyllid digonol ei ddyrannu i gynnal blaenoriaethau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Caiff disgyblion fudd o ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr sy'n cynorthwyo eu lles ac yn gwella eu cyrhaeddiad. Mae gan yr ysgol berthynas arbennig o gref â'r rhan fwyaf o rieni, sy'n cael ei hatgyfnerthu gan waith llwyddiannus swyddog ymgysylltu â theuluoedd yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio cyfryngau electronig yn effeithiol i sicrhau y caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth reolaidd, ac mae'n trefnu cyfleoedd rheolaidd i rieni ddysgu sut y gallant helpu eu plant i lwyddo. O ganlyniad, mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o gymuned yr ysgol, sy'n meithrin agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu yn llwyddiannus.

Mae cysylltiadau adeiladol â'r cylch chwarae cyn-ysgol ar y safle yn paratoi disgyblion yn dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae trefniadau i hwyluso pontio esmwyth i'r ysgol uwchradd leol yn dda. Mae gan yr ysgol gysylltiad agos â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol ac mae wedi rhannu arfer dda ag ysgolion eraill. Mae'n elwa ar gyfleoedd i gymedroli a safoni gwaith disgyblion oddi mewn i'r clwstwr o ysgolion lleol.

Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth ac yn eu helpu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol. Mae disgyblion yn falch o'u rôl mewn datblygu Gardd Goffa'r Glowyr sydd gerllaw'r ysgol, ac yn y gwasanaeth coffa blynyddol. Mae partneriaethau ag ystod eang o gyflogwyr lleol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion; er enghraifft, mae banc bwyd lleol yn helpu i'w cyflwyno i fedrau llythrennedd ariannol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr holl athrawon a chynorthwywyr addysgu gymwysterau a phrofiad addas i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r pennaeth yn lleoli staff yn ofalus er mwyn sicrhau y cânt yr effaith fwyaf ar ddysgu disgyblion. Mae defnyddio'r dirprwy bennaeth yn swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn sicrhau bod rhieni'n deall ymrwymiad yr ysgol i gryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn addas ac mae staff yn defnyddio eu hamser yn dda. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn galluogi staff i ddatblygu eu harbenigedd trwy raglen gadarn o ddatblygiad proffesiynol; er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar wedi arwain at ddull effeithiol a chyson o reoli ymddygiad ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn effeithiol ac yn sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn aros oddi mewn i'r terfynau argymelledig. Mae'r pennaeth yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllid ychwanegol gan lawer o sefydliadau, sy'n gwella darpariaeth, er enghraifft i wella'r amgylchedd dysgu, ymestyn datblygiad proffesiynol staff a chyfoethogi profiadau disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i wella presenoldeb a darparu cymorth ymyrraeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion sy'n fwy agored i niwed wedi gwella'n sylweddol, a gwna llawer ohonynt gynnydd da neu dda iawn â'u medrau llythrennedd a rhifedd.

O ystyried y cynnydd da y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei wneud, ansawdd y ddarpariaeth a'r defnydd o gyllid, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6762197 - NANT Y PARC PRIMARY SCHOOL**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 203 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 38.2 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 24 | 28 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 85.7 | 78.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 28 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 85.7 | 82.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 29.2 | 21.4 | 26.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 28 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 85.7 | 87.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 25.0 | 26.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 28 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 92.9 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 21.4 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6762197 - NANT Y PARC PRIMARY SCHOOL**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 203 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 38.2 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 19 | 22 | 28 | 26 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 94.7 | 90.9 | 89.3 | 88.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 22 | 28 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.7 | 90.9 | 89.3 | 88.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.6 | 31.8 | 28.6 | 30.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 22 | 28 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.7 | 95.5 | 89.3 | 88.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.8 | 31.8 | 25.0 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 22 | 28 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.7 | 95.5 | 92.9 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.8 | 31.8 | 32.1 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er Medi 2010.

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | | 82 | | 81<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | | 82 | | 78<br>95%<br>92% | 4<br>5%<br>8% | | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | | 82 | | 79<br>96%<br>97% | 3<br>4%<br>3% | | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | | 82 | | 82<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | | 82 | | 82<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | | 82 | | 82<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | | 82 | | 81<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | | 82 | | 82<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | | 82 | | 74<br>90%<br>91% | 8<br>10%<br>9% | | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | | 82 | | 81<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | | 82 | | 74<br>90%<br>77% | 8<br>10%<br>23% | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 82 | | 74<br>90% | 8<br>10% | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| | | 84% | 16% | ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 33 | 28 | 4 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 12% | 0% | 3% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 33 | 29 | 3 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 88% | 9% | 0% | 3% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 33 | 27 | 5 | 0 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 15% | 0% | 3% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 33 | 26 | 6 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 79% | 18% | 0% | 3% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 33 | 18 | 13 | 1 | 1 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 55% | 39% | 3% | 3% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 33 | 29 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 25 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 28 | 16 | 8 | 4 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 29% | 14% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 33 | 23 | 8 | 1 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 70% | 24% | 3% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 18 | 12 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 38% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 33 | 21 | 9 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 64% | 27% | 6% | 3% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate | 28 | 20 | 7 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| additional support in relation to any particular individual needs'. | | 71% | 25% | 4% | 0% | | ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 33 | 18 | 13 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 55% | 39% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 33 | 21 | 10 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 64% | 30% | 6% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 18 | 11 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 58% | 35% | 6% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 33 | 24 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 73% | 24% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 29 | 18 | 11 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 33 | 22 | 9 | 1 | 1 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 67% | 27% | 3% | 3% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 33 | 28 | 4 | 0 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 85% | 12% | 0% | 3% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |
| Christopher Ian Dolby | Arolygydd Tîm |
| Helen Brigid Potts | Arolygydd Lleyg |
| Margaret Lonsdale | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nicola Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.